# Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)

## Asesiad o'r Effaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol

### Cyflwyniad

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar Weinidogion Cymru i roi 'sylw dyladwy' i amrywiaeth o ofynion sy'n ymwneud â dileu neu leihau anfanteision i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig neu sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a dileu rhwystrau i gymryd rhan.

Mae'r asesiad effaith hwn yn ystyried sut y bydd cyflwyno'r Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) yn effeithio ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae'r asesiad hwn wedi ystyried effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl y Bil ar bobl â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oedran, anabledd, rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, priodas a phartneriaeth sifil, a chrefydd a chredo.

### Ymgynghori ac ymgysylltu

Mae angen i ni sicrhau bod y cŵn, eu perchnogion, a'r rhai sy'n ymwneud â'r diwydiant yn gallu symud i ffwrdd o rasio mewn ffordd gynlluniedig a rhesymol. Mae hyn yn cynnwys diogelu lles y cŵn sydd ar hyn o bryd yn y diwydiant, tra'n sicrhau bod cyn lleied â phosibl o effaith ar y gymuned a'r economi leol.

Mae ein hymgynghoriad ar drwyddedu sefydliadau, gweithgareddau ac arddangosfeydd lles anifeiliaid, a gynhaliwyd rhwng 8 Rhagfyr 2023 a 1 Mawrth 2024, yn cynnwys dau gwestiwn yn ymwneud â rasio milgwn. Cafwyd 1180 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd 344 dros e-bost a 836 ar y ffurflen ymateb ar-lein. O blith y 1180 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 291 ohonynt yn ymatebion e-bost a oedd yr un fath yn union â'i gilydd, a dderbyniwyd gan y cyhoedd fel rhan o ymgyrch gan y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon, lle canolbwyntiwyd ar filgwn.

Ceir rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys ein hymgynghoriad ar drwyddedu sefydliadau, gweithgareddau ac arddangosfeydd lles anifeiliaid yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Reoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil.

Nid oedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi unrhyw bryderon nac effeithiau sy'n arbennig o gysylltiedig ag unigolion â nodweddion gwarchodedig.

Cyhoeddwyd Grŵp Gweithredu ar 11 Gorffennaf 2025 sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r diwydiant milfeddygol a rasio, y trydydd sector ac awdurdodau lleol. Mae'r Grŵp yn darparu cyngor ac arweiniad ymarferol i Lywodraeth Cymru, fel rhan o'r pontio oddi wrth rasio milgwn. Mae wedi bod yn trafod â'r rheini y bydd y gwaharddiad yn effeithio arnyn nhw, gan gynnwys hyfforddwyr a pherchenogion milgwn rasio.

Ers cyhoeddi argraffiad cyntaf yr asesiad effaith hwn ym mis Hydref 2025, mae'r Grŵp wedi ceisio rhagor o wybodaeth am bresenoldeb ac ymgysylltu ar-lein i'n helpu i ddeall yr effeithiau cymdeithasol. Mae arolwg o hyfforddwyr cofrestredig Valley hefyd yn mynd rhagddo i weld beth yw eu bwriadau ar ôl y gwaharddiad a'u hanghenion o ran ailgartrefu milgwn. Mae'r mesurau hyn yn adlewyrchu'n hymrwymiad i fonitro a lleihau effeithiau yn ôl yr angen.

Mae eu gwaith hyd yma yn cadarnhau ein canfyddiadau na fydd y gwaharddiad yn effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Bydd y Grŵp Gweithredu yn parhau â'i waith  a gallai gynnig atebion ymarferol i broblemau sy'n codi yn sgil y gwaharddiad.

Y bwriad yw y bydd y gwaharddiad yn dod i rym rhwng Ebrill 2027 ac Ebrill 2030. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn ein helpu i ddewis dyddiad priodol trwy drafod â'r rhai yr effeithir arnynt gan ganiatáu pontio teg oddi wrth rasio, cefnogi ailgartrefu milgwn a rhoi amser i berchnogion a busnesau addasu i'r gwaharddiad.

**Sut y bydd y cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb?**

Mae ein hasesiad wedi nodi bod disgwyl i'r darpariaethau yn y Bil effeithio'n gyfartal ar bob person. Ni fydd unrhyw effaith ar y gymuned ehangach yn benodol i unrhyw un person neu grŵp o bobl â nodweddion gwarchodedig, ond i gymdeithas yn ehangach.

**Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig**

Mae'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma gan y Grŵp Gweithredu yn cryfhau'r ail argraffiad hwn o'n hasesiad o'r effeithiau.

Isod mae tabl sy'n cofnodi unrhyw effaith bosibl ar y nodweddion gwarchodedig a llwybrau lliniaru posibl, lle bo'n briodol. Lle rydym wedi cofnodi "dim effaith", rydym wedi ystyried y cynnig ar sail y nodwedd ac wedi dod i'r casgliad nad oes fawr o effaith neu ddim effaith.

| **Grŵp neu nodwedd warchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau?** |
|---|---|---|
| Oed: Pobl hŷn | Dim effaith: er ei fod yn cael ei ystyried yn weithgaredd amser hamdden traddodiadol ar gyfer pobl hŷn, nid oedd yr ymgynghoriad yn | Amh. |

| | | |
|---|---|---|
| | codi unrhyw bryderon o'r math yma ac ymddengys bod hyn yn fwy o gyffredinoli mynychwyr nag yn seiliedig ar dystiolaeth. | |
| Oed: Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Cadarnhaol: disgwylir i wahardd rasio milgwn gael effaith gadarnhaol ar agweddau plant a phobl ifanc tuag at anifeiliaid. | Mae trafodaeth â rhanddeiliaid yn mynd rhagddi trwy'r Grŵp Gweithredu, gyda defnydd o'r safle yn y dyfodol yn cael ei ystyried.<br>Gweler hefyd yr asesiadau o Hawliau Plant a'r effeithiau Economaidd-Gymdeithasol. |
| Anabledd | Dim effaith | Amh. |
| Ailbennu Rhywedd | Dim effaith | Amh. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Dim effaith | Amh. |
| Hil | Dim effaith | Amh. |
| Crefydd, cred a dim cred | Dim effaith | Amh. |
| Rhyw / Rhywedd | Dim effaith | Amh. |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim effaith | Amh. |

| | | |
|---|---|---|
| Priodas a phartneriaeth sifil | Dim effaith | Amh. |
| Aelwydydd incwm isel | Negyddol Posibl: Rydym yn deall bod teuluoedd cyfan yn ymwneud â rasio milgwn, ac yn elwa o'r incwm y mae'n ei gynnig. | Fel a nodwyd gan y Grŵp Gweithredu. Er enghraifft, gall rhaglenni REACT+ a chyflogadwyedd cysylltiedig helpu i gefnogi gweithwyr a'r rheini sy'n rhan o'r diwydiant i bontio oddi wrth rasio. |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

Trwy gydol proses lawn y Bil mae swyddogion yn gweithredu mewn ffordd sy'n gydnaws â Chytuniadau'r Cenhedloedd Unedig a'r Confensiynau Hawliau Dynol fel sy'n briodol. Mae ein dull gweithredu yn arddel gwerthoedd tegwch, parch, cydraddoldeb, amrywiaeth ac ymreolaeth.

Prif ffynhonnell cyfraith hawliau dynol yn y DU yw Deddf Hawliau Dynol 1998 sy'n ymgorffori'r rhan fwyaf o'r hawliau sydd wedi'u cynnwys yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol o fewn cyfraith y DU.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys yr hawliau a'r rhyddidau sylfaenol sydd gan bobl yn y DU. Yn eu plith:

Erthygl 1 (rhagarweiniad ac nid yw'n rhan o'r Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fyw
Erthygl 3: Rhyddid rhag artaith neu driniaeth ddiraddiol
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur dan orfodaeth
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i gael treial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb awdurdod cyfreithlon
Erthygl 8: Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol a gohebiaeth
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cred a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid ymgynnull a chymdeithasu
Erthygl 12: Yr hawl i briodi a chael teulu

Erthygl 13: Yr hawl i rwymedi effeithiol
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu mewn perthynas â'r hawliau a'r rhyddiadau hyn
Protocol 1, Erthygl 1: Yr hawl i fwynhau eiddo yn heddychlon.
Protocol 1, Erthygl 2: Yr hawl i addysg
Protocol 1, Erthygl 3: Yr hawl i gymryd rhan mewn etholiadau rhydd
Protocol 13, Erthygl 1: Diddymu'r gosb farwolaeth

Mae rhagor o wybodaeth am hawliau dynol ar gael ar wefan y British Institute for HumanRights: http://www.bihr.org.uk/.

Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn 2004 ac mae ein gwaith yn seiliedig ar gyflawni nodau craidd UNCRC. Mae UNCRC wedi'i ystyried yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Llywir yr asesiadau gan waith y Grŵp Gweithredu. Mae'r dystiolaeth y maen nhw wedi'i darparu yn rhoi rhagor o fanylion i ni ar sut i'w weithredu'n gymesur, gan gynnwys yr amser paratoi, ymgysylltu strwythuredig â thrac Valley a'r awdurdod lleol, datblygu protocol ailgartrefu ac ystyried beth i'w wneud â'r safle yn y dyfodol.

| **Hawliau Dynol** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau sydd wrth wraidd eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?** |
|---|---|---|---|
| Erthygl 1 Protocol 1: Yr hawl i fwynhau eiddo yn heddychlon. | Efallai y bydd effaith negyddol ar y rheini sy'n gysylltiedig â rasys milgwn sy'n digwydd yng Nghymru. | Barnwyd bod gwahardd rasio milgwn yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng buddiannau preifat a buddiannau'r gymuned, a bydd yr amser arweiniol a roddir gan y Bil (1 Ebrill 2027 i 1 Ebrill 2030) yn rhoi amser i'r sector addasu.<br><br>Bydd y ddeddfwriaeth yn ei gneud yn drosedd i weithredwr stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru ei ddefnyddio neu dan wybod ganiatáu iddo gael ei defnyddio ar | Mae'r rhanddeiliaid sydd â diddordeb, gan gynnwys cynrychiolwyr yr un stadiwm sy'n weddill yng Nghymru, yr awdurdod lleol a grwpiau lles anifeiliaid i gyd wedi cael yr un cyfle, i ymateb i ddarpariaethau'r Bil a sut y gallai effeithio arnyn nhw.<br><br>Rydym wrthi'n ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy'r Grŵp Gweithredu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gyfer rasio milgwn ac i berson fod yn gysylltiedig â threfnu ras milgwn sy'n digwydd yng Nghymru neu y bwriedir iddi ddigwydd yng Nghymru.<br><br>Yn ogystal â pherchenogion a gweithredwyr yr un stadiwm rasio milgwn sy'n weddill yng Nghymru, gallai busnesau eraill sy'n dibynnu ar rasio milgwn yng Nghymru, gan gynnwys hyfforddwyr, cwmnïau betio, cyflenwyr a busnesau lletygarwch sy'n gysylltiedig â lleoliadau rasio, brofi lleihad yn eu gweithgarwch masnachol.<br><br>Disgrifir asesiad pellach o'r opsiynau, ynghyd â'r manteision, anfanteision a holl effeithiau'r cynnig yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Reoliadol (EMRIA). | Bydd y Grŵp yn rhoi gwybodaeth ac adborth gyda golwg ar leihau'r effeithiau lle gellir wrth roi'r gwaharddiad ar waith.<br><br>Mae'r ffenest gychwyn o Ebrill 2027 tan Ebrill 2030 yn rhoi cyfnod pontio cyfrifol i ddirwyn gweithgareddau i ben, cryfhau'r trefniadau ailgartrefu a helpu cyrff gorfodi ac awdurdodau lleol i baratoi. |

| **Hawliau Dynol** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau sydd wrth wraidd eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 8: Yr hawl i gael eich bywyd preifat a theuluol a gohebiaeth wedi'u parchu. | Mae'r Bil yn rhoi pwerau gorfodi i sicrhau y gorfodir y gwaharddiad ar rasio milgwn yng Nghymru yn effeithiol. | Amcan y Bil yw diogelu lles anifeiliaid a thawelu pryderon moesegol ynghylch dioddefaint anifeiliaid a gedwir i ddiddanu.<br><br>Nid yw'r pwerau gorfodi yn Atodlen 2 yn rhai newydd ac maent yn debyg i'r pwerau a geir mewn cyfreithiau eraill a disgrifir terfynau'r pwerau yn fanwl yn yr Atodlen. | Nodir y darpariaethau gorfodi yn adran 4 o Atodlen 2 y Bil. Mae Atodlen 2 yn cynnwys pwerau amrywiol ynghylch mynd ar dir, gan gynnwys pwerau i fynd i annedd a phwerau archwilio ac atafaelu.<br><br>Mae paragraff 2 o Atodlen 2 yn rhoi pŵer i archwilwyr fynd i eiddo nad yw'n annedd, lle ceir rheswm i amau bod trosedd yn cael neu ar fin cael ei chyflawni ar yr eiddo, neu y ceir hyd i dystiolaeth bod trosedd wedi neu ar fin cael ei chyflawni.<br><br>Mae paragraff 3 o Atodlen 2 yn rhoi pŵer i archwilwyr fynd i annedd os yw'r meddiannydd neu'r person sy'n gyfrifol am yr annedd yn rhoi ei ganiatâd, neu os yw'r archwilydd yn cael gwarant gan Ynad.<br><br>Mae paragraff 4 o Atodlen 2 yn darparu bod gwarant o'r fath yn awdurdodi mynediad un tro yn unig a rhaid ei ddefnyddio o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y cafodd ei roi.<br><br>Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys felly |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ddiogelon i atal triniaeth annheg. |

**Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir**

Nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi gan na fydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn trin dinasyddion yr UE / AEE / y Swistir yn wahanol i drigolion y DU.

**Casgliad**

Bydd y gwaharddiad rasio milgwn yn effeithio'n uniongyrchol ar unigolion a / neu fusnesau sy'n derbyn incwm o rasio milgwn ac gall arwain hefyd at golli cyfleoedd hamddena lleol, llai o gydlyniant cymunedol ac effeithiau cymdeithasol ehangach.

Gallai effeithio hefyd ar y rheini yr ymchwilir iddynt oherwydd trosedd ac y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â phwerau gorfodi archwilydd i fynd i eiddo neu annedd. Mae hefyd yn debygol o effeithio ar yr elusennau hynny sy'n ceisio ailgartrefu milgwn ar ddiwedd eu hoes rasio. Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu cael hyd i dystiolaeth i awgrymu bod y bobl hyn yn dod o dan unrhyw un o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig yn benodol.

Fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae diffyg data ynghylch nifer yr ymwelwyr a'r diffyg tystiolaeth ynghylch llif yr incwm i'r gymuned leol yn golygu ei bod yn anodd mesur yn fanwl beth yw canlyniadau economaidd gwahardd rasio milgwn a'r effeithiau cymdeithasol ehangach. Am hynny, mae'n anodd hefyd asesu'n llawn i ba raddau yr effeithir ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig.

Bydd y Grŵp Gweithredu yn parhau i ddarparu cyngor ar fesurau lliniaru ymarferol wrth i'w waith fynd rhagddo. Mae hyn yn cynnwys clustnodi cymorth wedi'i deilwra i'r unigolion a'r busnesau hynny y bydd y gwaharddiad yn effeithio arnyn nhw. Saif hyn ochr yn ochr â rhaglenni REACT+ a chyflogadwyedd perthnasol presennol Llywodraeth Cymru a fydd yn helpu i sicrhau bod gweithwyr a phobl eraill sy'n dibynnu ar weithgarwch sy'n gysylltiedig â Stadiwm Valley yn cael y cymorth priodol dros y cyfnod pontio, gan gynnwys y bobl hynny â nodweddion gwarchodedig.

Daw'r gwaharddiad i rym rhwng 1 Ebrill 2027 ac 1 Ebrill 2030. Bydd yr amser arweiniol hwn ynghyd â'r cymorth a'r cyngor ymarferol gan y Grŵp Gweithredu, yn helpu i leihau'r effaith ar y bobl dan sylw.